# <u>Grŵp Cynghori Gweinidogol (Grŵp Gorchwyl a Gorffen)</u>

## <u>Atebolrwydd GIG Cymru</u>

## Cylch Gorchwyl

### Y cefndir

- Cafodd strwythur llywodraethu presennol GIG Cymru (Byrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau ac Awdurdodau Iechyd Arbennig sy'n atebol i'r Gweinidog drwy eu priod Gadeiryddion, a Phrif Weithredwyr Sefydliadau sy'n atebol i Brif Weithredwr GIG Cymru) ei sefydlu yn dilyn Deddf y GIG (Cymru) 2006.

- Cafodd y penderfyniad i sefydlu Gweithrediaeth GIG Cymru ei wneud yn *Cymru Iachach*, fel yr argymhellwyd gan yr Adolygiad Seneddol o Ddyfodol Hirdymor Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Y nod oedd cadarnhau gweithgarwch cenedlaethol a phennu dull cyson o gynllunio, gosod blaenoriaethau sy'n seiliedig ar ganlyniadau, rheoli perfformiad ac atebolrwydd. Cafodd y penderfyniad ei gadarnhau yn ein Rhaglen Lywodraethu.

- Daeth Gweithrediaeth GIG Cymru yn weithredol ar 1 Ebrill 2023.

- Nid yw'r mecanweithiau atebolrwydd statudol wedi newid o ganlyniad i sefydlu Gweithrediaeth GIG Cymru. Mae holl sefydliadau'r GIG yn parhau i fod yn atebol yn uniongyrchol i'r Gweinidogion, a bydd Llywodraeth Cymru a'r Gweinidogion yn parhau i osod blaenoriaethau, targedau a mesurau canlyniadau ar gyfer y GIG. Mae Gweithrediaeth y GIG, fodd bynnag, yn darparu capasiti ychwanegol ar lefel genedlaethol i oruchwylio a chefnogi'r gwaith o gyflawni'r blaenoriaethau hyn.

- Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn penodi Cadeiryddion ac aelodau annibynnol i fyrddau iechyd, ymddiriedolaethau ac awdurdodau iechyd strategol sydd, ar y cyd â'r Prif Weithredwr a'r Tîm Gweithredol, yn gyfrifol am oruchwylio'r sefydliadau y maent yn cael eu penodi iddynt.

- Ochr yn ochr â sefydlu Gweithrediaeth newydd GIG Cymru, roedd *Cymru Iachach* yn cynnwys camau penodol ar gyfer cyflwyno *"'ysgogiadau ar gyfer newid', cyfuniad o gymhellion a chosbau, er mwyn ysgogi perfformiad, gwobrwyo llwyddiant a rhoi sylw i fethiant i gyflawni"*.

- Bydd ysgogiadau ar gyfer newid yn darparu rhai o'r dulliau ar gyfer ysgogi gwelliannau mewn perfformiad a chanlyniadau fel rhan o nod Gweithrediaeth GIG Cymru o roi arweiniad cryfach, trwy drefniadau atebolrwydd ac uwchgyfeirio cliriach a mwy cadarn. Bu saib yn y gwaith ar yr ysgogiadau ar gyfer newid yn ystod y pandemig a chafodd ei ddiweddaru ym mis Hydref 2022. Mae'r gwaith hwn wedi'i ddiweddaru ymhellach yn Chwarter 1 o 2023/24, er mwyn adlewyrchu'r blaenoriaethau presennol ynghyd â'r cyd-destun gweithredol ac ariannol ochr yn ochr â'r gwaith i ddiwygio Fframwaith Sicrwydd a Goruchwyliaeth GIG Cymru.

- Bydd Fframwaith Sicrwydd a Goruchwyliaeth GIG Cymru yn nodi mecanwaith a dull gweithredu Gweinidogion Llywodraeth Cymru ar gyfer cael sicrwydd gan sefydliadau GIG Cymru. Bydd y Fframwaith Sicrwydd a Goruchwyliaeth yn nodi'r dull goruchwylio a'r broses ar gyfer uwchgyfeirio ac ymyrryd, ac fe'i cyhoeddir yn hydref 2023.

- Mae Amcanion Perfformiad Cadeiryddion y GIG yn cael eu cryfhau i gysylltu â gofynion y Fframwaith Cynllunio ac amodau atebolrwydd. Bydd hyn yn atgyfnerthu atebolrwydd a bydd yn golygu bod cysylltiad agosach rhwng rheoli perfformiad y Cadeirydd â pherfformiad y sefydliad y mae'n ei arwain.

**Diben/Rôl y Grŵp**

O fewn y cyd-destun a nodir uchod, gofynnir i'r Grŵp:

- Fyfyrio ynghylch y strwythurau llywodraethu presennol o fewn system GIG Cymru a darparu arsylwadau ar unrhyw gryfderau neu wendidau.
- Mynegi barn ynghylch a yw'r atebolrwydd yn glir ac yn briodol.
- Darparu unrhyw argymhellion i gryfhau'r system.
- Ystyried y ffaith bod Gweinidogion Iechyd yng Nghymru yn agosach at system y GIG nag mewn mannau eraill a bod angen i'r mecanweithiau atebolrwydd ystyried hyn.

Mewn perthynas â'r ysgogiadau ar gyfer newid, gofynnir i'r Grŵp:

  - Adolygu'r papur ar yr ysgogiadau ar gyfer newid o fis Hydref 2022.
  - Ystyried rôl cymhellion a chosbau i ysgogi'r ddarpariaeth yn sefydliadau GIG Cymru a'i gwella.
  - Nodi unrhyw ysgogiadau eraill y gellid eu defnyddio i ysgogi perfformiad.

- Mae'r Grŵp Cynghori Gweinidogol hwn ar ffurf grŵp gorffen a gorffen. Mae wedi'i sefydlu at ddiben penodol, sy'n gyfyngedig o ran amser ac, oherwydd ei natur dros dro, mae wedi'i ddosbarthu fel corff ad hoc gan Lywodraeth Cymru.

- Bydd y Grŵp yn adrodd i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gydag argymhellion ar ddiwedd ei gyfnod (hy erbyn 31 Mawrth 2024).

- Nodir y gallai fod yn ofynnol cael deddfwriaeth sylfaenol newydd ar gyfer yr argymhellion os cânt eu derbyn. Cydnabyddir hefyd na fydd modd cyflawni unrhyw gamau gweithredu o'r fath yn ystod tymor y Senedd hon ond y gallent fod yn rhan o'r Rhaglen Lywodraethu nesaf ar ôl etholiad y Senedd 2026.

**Aelodaeth**

- Fel Grŵp Cynghori Gweinidogol sy'n cael ei sefydlu ar ffurf grŵp gorchwyl a gorffen, bydd y Grŵp yn cael ei benodi ar sail cyngor gan Uned Penodiadau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru. Mae'r cyngor hwnnw yn nodi ei bod yn bolisi gan Lywodraeth Cymru i benodiadau o'r fath ddilyn ysbryd Cod Ymarfer y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus ar gyfer Penodiadau gan Weinidogion i Gyrff Cyhoeddus, ac, yn benodol, y dylai penodiadau gael eu gwneud ar sail teilyngdod. Bydd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cymeradwyo pob aelod a benodir i'r Grŵp, fel sy'n arferol.

- Bydd y Grŵp yn cael ei gadeirio gan Ann Lloyd, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

- Bydd y Grŵp yn cynnwys rhai aelodau o'r tu allan i GIG Cymru sy'n gallu darparu arbenigedd, safbwynt a her ychwanegol.

- Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu Swyddog Polisi perthnasol i arsylwi ar y Grŵp a darparu gwybodaeth ffeithiol am y trefniadau a'r opsiynau presennol yr ymchwiliwyd iddynt hyd yma.

- Bydd cap o 10 ar nifer yr aelodau.

- Bydd pob aelod yn cael ei benodi am gyfnod o chwe mis o ddyddiad y cyfarfod cychwynnol.

- Ni fydd aelodau'r Grŵp yn derbyn tâl. Bydd costau teithio a chynhaliaeth yn cael eu had-dalu.

- Bydd angen i'r aelodau lenwi a dychwelyd ffurflen Cofrestru a ffurflen cofnodi buddiannau.

- Dylid sicrhau bod yr aelodau yn ymwybodol o'r cod ymddygiad.

**Cyfarfodydd**

- Cynhelir y cyfarfod cyntaf wyneb yn wyneb gydag opsiwn i ymuno o bell, ond gall y cyfarfodydd wedi hynny gael eu cynnal o bell yn ddiofyn yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

- Ni dderbynnir dirprwyon yn lle'r aelodau.

- Bydd swyddogaeth ysgrifenyddiaeth y Grŵp yn cael ei chyflawni gan Lywodraeth Cymru.

- Nid oes isafswm nifer o aelodau sy'n rhaid ei gael mewn cyfarfod er mwyn ffurfio cworwm.

- Ni chyhoeddir allbwn ar sail pob cyfarfod. Bydd y Grŵp yn adrodd yn ôl i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar ddiwedd eu cyfnod.